# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Darparwyr |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Gofal Cymdeithasol – Carchar y Parc |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR06 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Arweinydd Tîm – Carchar y Parc |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Rhoi gofal a chymorth i garcharorion sy'n cyflwyno gydag anghenion corfforol a symudedd a charcharorion sy'n byw gyda dementia. Cynorthwyo unigolion mewn ffordd sy'n eu galluogi, â thasgau gofal personol, sy'n cynnwys ymolchi, mynd i'r toiled, a gwisgo.
Byddwch wedi'ch lleoli yng Ngharchar y Parc Pen-y-bont ar Ogwr, gan weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol. Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Swyddogion Diogelwch Carchar G4S.

Mae'n bwysig bod ein gweithlu'n cael y gydnabyddiaeth broffesiynol y maent yn ei haeddu ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu bob amser. Mae gweithio fel rhan o dîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn rhan hanfodol o'r rôl hon.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Darparu gwasanaethau cartref o ansawdd uchel a diogel i unigolion sydd wedi'u cadw yn y Sefydliad Diogel. Hyrwyddo annibyniaeth gan sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.
- Bydd yn ofynnol i chi weithio mewn timau o ddau i gynorthwyo unigolion sydd wedi'u hasesu fel rhai y mae angen trosglwyddiadau symud dwbl arnynt. Os yw unigolyn wedi'i asesu fel un y mae angen symud gan unigolyn arno, bydd swyddog carchar yn gwmni i chi er mwyn sicrhau diogelwch pawb dan sylw.
- Gweithio ochr yn ochr yn ochr â Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth/Triniaeth Gofal unigol yn cael eu cyflawni.
- Cynorthwyo unigolion sy'n byw gyda dementia i fodloni eu rhaglenni asesu tymor-byr a hirdymor.
- Hyrwyddo a galluogi annibyniaeth ac annog unigolion i wneud dewisiadau gwybodus.

- Dilyn cynlluniau cyflawni gofal a chymorth unigolion, asesiadau risg symud a chario a chwblhau cofnodi dyddiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran sut y mae anghenion unigolion yn cael eu diwallu yn unol â chynlluniau gofal a chymorth unigol.
- Cofnodi a chyflwyno adroddiadau i'ch Arweinydd Tîm, ynghylch unrhyw bryderon a allai fod gennych ynghylch unigolion rydych yn eu cefnogi ac unrhyw newidiadau yn eu cyflwyniad neu eu hamgylchiadau, a allai eich rhoi chi, y person, neu eraill mewn perygl.
- Cydymffurfio ag arferion symud a chario diogel a'u hyrwyddo yn ôl anghenion person fel y nodir yn y rhaglen therapi ac o fewn canllawiau symud a chario CBSP. Defnyddio offer priodol sydd wedi'i ragnodi fel teclynnau codi, slingiau, byrddau trosglwyddo, gwregysau cario yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin â pharch, gan roi sylw i'w gysur, llesiant, a'i ddiogelwch. Ymdrin yn sensitif ag unigolion sy'n bryderus neu'n heriol am ba bynnag reswm.
- Cymryd rhan yn llawn yn unol â gofynion rota sy'n cynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Ymweld ag unigolion yn unol â'r rota wythnosol a ddarperir.
- Sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal o fewn yr amgylchedd cadw drwy gydymffurfio â chyfarwyddiadau diogelwch.
- Cyfrannu at broses adolygu cynlluniau Gofal a Chymorth/Triniaeth Gofal Gweithiwr Cymdeithasol.
- Cyfrannu at broses adolygu Cynlluniau Darparu Gwasanaethau.
- Adeiladu ar berthnasoedd gweithio proffesiynol gydag unigolion a chydweithwyr.
- Cymryd cyfrifoldeb am fod yn ymwybodol o safonau, polisïau a gweithdrefnau Cartref Pen-y-bont ar Ogwr a'u dilyn, sy'n cynnwys Iechyd a Diogelwch, Asesu Risg a Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### Iechyd a Diogelwch
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

### Cyfle Cyfartal
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/G4S**

Bydd y swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriadau diogelwch cadarn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, hyfforddiant Deiliad Allweddi, a hunanamddiffyn gyda G4S cyn dechrau'r swydd hon.

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Gofal Cymdeithasol – Carchar y Parc

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd ac Ymarfer (Oedolion) neu gymhwyster blaenorol a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu rhaid eich bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni'r dyfarniad.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad i gofrestru o fewn 6 mis. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn tîm.<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd diogel.<br>• Gallu gweithio mewn sefyllfaoedd heriol a chymhleth.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion hylendid da, Rheoli ac Atal Heintiau a hyfywedd meinwe.<br>• Gwybodaeth am iechyd a diogelwch a dealltwriaeth o hyn. Gwybodaeth am Ddiogelu Oedolion mewn Perygl. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol gyda chydweithwyr ar bob lefel.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol<br>• Gallu cofnodi gwybodaeth gywir a darllenadwy.<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da.<br>• Sgiliau TG da. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Dangos sgiliau cyfathrebu a chyd-drafod mewn sefyllfaoedd a allai fod yn sensitif ac emosiynol iawn. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |
| | • Yn brydlon ac yn ddibynadwy. | Ydy | |
| | • Gallu meddwl yn glir. | | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol. | Ydy | |
| | • Safon hylendid personol a chod gwisg. | Ydy | |
| | • Agwedd ac ymddygiad proffesiynol. | Ydy | |
| | • Meddu ar gerbyd modur i'w ddefnyddio ar deithiau swyddogol. Caiff eich treuliau milltiredd eu had-dalu'n seiliedig ar y gyfradd y cytunir arni'n lleol. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |